



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Cylchlythyr Haf 2023 Summer Newsletter 2023





## Haf 2023

Croeso cynnes i gylchlythyr chwarterol cyntaf Comisiynydd y Gymraeg. Gobeithio y byddwch yn mwynhau ei ddarllen ac mae croeso i chi ei rannu gyda chydweithwyr a chyfeillion.

## Comisiynydd ar daith

Ers cychwyn ar ei swydd fel Comisiynydd y Gymraeg ym mis Ionawr eleni mae Efa Gruffudd Jones wedi bod yn crwydro Cymru, yn cyfarfod â rhanddeiliaid, yn casglu barn ac yn sgwrsio am ei gwaith.

Bu'n trafod gyda disgyblion ysgol a choleg ym Môn, Penfro a Chonwy, yn clywed am y datblygiadau diweddaraf ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac yn ymweld â rhai sydd wedi derbyn y Cynnig Cymraeg yng Ngheredigion a Wrexham.

Cafwyd wythnos braf iawn, ymhob ystyr y gair, yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yn sir Gaerfyrddin ddechrau Mehefin. Daeth torf fawr i Lanymddyfri ac roedd yn hyfryd gallu sgwrsio gyda chynifer o bobl ar ein stondin. Cawsom gwmni rhai o'r cyrff sydd wedi derbyn y Cynnig Cymraeg a bu Clybiau Plant Cymru a gwobr Dug Caeredin yn cynnig amryw o weithgareddau.

**Dywedodd Efa,** "Mae wedi bod yn chwe mis cyntaf hynod o brysur a chyffrous. Rwyf wedi cael y cyfle i gwrdd â chymaint o bobl a phawb yn awyddus i gynnig syniadau a lleisio barn. Yr hyn sydd yn wych yw'r agwedd gadarnhaol sydd gan bobl at y Gymraeg a'r awydd i weld y cynnydd yn ei defnydd o ddydd i ddydd. Rwy'n sylweddoli fod gen i a fy swyddfa gyfrifoldeb i weithredu ar nifer o'r syniadau ac rwy'n edrych ymlaen i'w rhoi ar waith, ac i glywed mwy o syniadau, yn y misoedd a'r blynnyddoedd sydd i ddod."

## Summer 2023

A very warm welcome to the Welsh Language Commissioner's first quarterly newsletter. We hope you enjoy reading it and feel free to share with colleagues and friends.

## Commissioner's fact finding mission



Since taking up her position as Welsh Language Commissioner in January this year, Efa Gruffudd Jones has been travelling across Wales, meeting stakeholders, gathering opinions and chatting about her work.

She discussed with school and college pupils in Anglesey, Pembrokeshire and Conwy, heard about the latest developments at Parc Cenedlaethol Eryri and visited organisations who have received the Cynnig Cymraeg in Ceredigion and Wrexham.

Everything was great, including the weather, at the Urdd Gobaith Cymru National Eisteddfod in Carmarthenshire at the beginning of June. A large crowd came to Llandovery and it was wonderful to be able to chat with so many people on our stand. We were joined by some of the organisations that have received the Cynnig Cymraeg and Clybiau Plant Cymru and the Duke of Edinburgh award offered various activities.

**Efa said,** "It has been an extremely busy and exciting first six months. I have had the opportunity to meet so many people and everyone is keen to offer ideas and voice an opinion. What is great to note is the positive attitude people have towards the Welsh language and the desire to see the increase in its daily use. I realise that my officers and myself have a responsibility to act on many of the ideas and I look forward to implementing them, and to hearing more ideas, in the months and years to come."

## Cyhoeddiad ar y cyd



Ar faes Eisteddfod yr Urdd fe wnaeth Comisiynydd y Gymraeg ynghyd â Chomisiynydd Plant Cymru flaenoriaethu'r gwaith o drefnu adolygiad cenedlaethol o faes Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r ddarpariaeth gaiff ei gynnis ar hyn o bryd drwy'r Gymraeg.

Mewn papur polisi a gyhoeddwyd mae'r Comisiynydd yn gofyn i:

- Awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) drwy gyfrwng y Gymraeg a defnyddio'r wybodaeth honno i ddiweddarau eu cynlluniau strategol ADY;
- Llywodraeth Cymru i gyhoeddi amserlen ei adolygiad pum mlynedd ar ddarpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Datblygu cynigion ar drefniadau cydweithio rhwng awdurdodau lleol.

Gallwch ddarllen mwy amdano [fan hyn](#).

## A joint policy announcement

During the Urdd Eisteddfod, the Welsh Language Commissioner, together with the Children's Commissioner for Wales called on the Welsh Government to prioritise the work of organising a national review of Additional Learning Needs and the provision that is currently offered through the Welsh language.

In a published policy paper the Commissioners ask:

- Local authorities to review their provision of Additional Learning Needs (ALN) through the medium of Welsh and use that information to update their ALN strategic plans;
- The Welsh Government to publish the timetable for its five-year review on ALN provision through the medium of Welsh;
- To develop proposals on collaboration arrangements between local authorities.

You can read more [here](#).

## Wythnos y Cynnig Cymraeg



Y [Cynnig Cymraeg](#) yw cydnabyddiaeth swyddogol y Comisiynydd gaiff ei roi i sefydliadau sector breifat a chyrrff trydydd sector ac elusennau sydd wedi cydweithio â swyddogion y Comisiynydd i gynllunio darpariaeth Gymraeg.

Ym mis Mai eleni cafwyd wythnos arbennig i ddathlu'r rheiny sydd wedi sicrhau cymeradwyaeth ac i annog eraill i fod yn rhan o'r cynllun. Ymysg y rhai diweddaraf sydd wedi ymrwmo i'r Cynnig Cymraeg y mae Banc Bwyd Arfon, Ramblers Cymru, Xplore! ac archfarchnad Lidl.

Bu Aled Hughes yn rhoi sylw i amryw o'r cyrrff ar ei raglen foreol ar Radio Cymru a gwelwyd blog dyddiol ar Golwg360 oedd yn rhoi hanes rhai o'r cyrrff sydd wedi manteisio arno.

Os yw hyn o ddiddordeb i chi beth am fynd amdani! Cysylltwch am sgwrs.

## A week of celebrations



The [Cynnig Cymraeg](#) (Welsh Offer) is the Commissioner's official recognition given to private sector and third sector organisations and charities that have collaborated with the Commissioner's officers to plan Welsh language provision.

In May this year we held a week to celebrate those who have secured the commendation and encourage others to participate. Among the latest to come on board are Banc Bwyd Arfon, Ramblers Cymru, Xplore! and supermarket chain Lidl.

Media coverage was given by Aled Hughes' daily BBC Radio Cymru programme and a daily blog was published on Golwg360 giving various organisations the opportunity to share their experiences of how they deliver Welsh language services and how important it is for them and their clients.

If this is of interest to you why not go for it! Get in touch for a chat.



## Safonau newydd i gyrff iechyd

Erbyn diwedd y flwyddyn bydd angen i gyrff rheoleiddio proffesiynau iechyd gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg. Bydd hyn yn galluogi aelodau o'r proffesiwn iechyd megis meddygon, nyrsys a deintyddion i gofrestru gyda'r sefydliadau hyn drwy'r Gymraeg.

Yn ogystal bydd yn cynnig hawliau iddynt o ran achosion cyfreithiol, ac arwain at osod safonau gwasanaethau a gweithredu pellach.

Dyma oedd y tro cyntaf i Efa Gruffudd Jones osod safonau'r Gymraeg ar gyrff ers cychwyn yn ei swydd yn gynharach eleni a gallwch ddarllen mwy [fan hyn](#).

## Dathlu'r Cyswllt Celtaidd ar fap



Am y tro cyntaf bydd y Gymraeg a Gaeleg yr Alban yn ymddangos gyda'i gilydd mewn map newydd sy'n hyrwyddo llwybrau cerdded Slow Ways ar hys a lled Prydain.

Dyma'r map cyfoes mwyaf cynhwysfawr o enwau llefydd yng Nghymru, yr Alban a Lloegr i gael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Gaeleg gyda'r nod o gydnabod yr hanes sydd wrth wraidd pob enw, a chyswllt yr enw hwnnw gyda threftadaeth a thirlun lleol.

Bu swyddogion y Comisiynydd ynghlwm â'r broses o ddatblygu'r map Cymraeg a'r gobaith yn y dyfodol fydd cynnwys enwau lleoedd mewn Scots a Chernyweg hefyd. Gallwch ddarllen mwy [fan hyn](#).

## New standards for health bodies



By the end of the year, regulatory bodies for health professions will need to comply with the Welsh Language Standards Regulations. This will allow members of health professions such as doctors, nurses and dentists to register with their regulator through the medium of Welsh.

In addition it will offer them rights in terms of participating in legal proceedings, and lead to further rights through service and operating standards.

This was the first time that Efa Gruffudd Jones set Welsh language standards for bodies since starting in her role earlier this year and you can read more [here](#).

## Map celebrates Celtic connections

For the first time Welsh and Scottish Gaelic will appear together in a new map that promotes Slow Ways walking routes all over Britain.

This is the most comprehensive contemporary map of place names in Wales, Scotland and England to be published in Welsh and Gaelic with the aim of recognising the history behind each name, and how that name connects with local heritage and landscape.

The Commissioner's officers were involved in the process of developing the Welsh map and it is hoped that in the future place names will also be included in Scots and Cornish. You can read more [here](#).



## Arferion effeithiol yn y gweithle a'r gymuned

Cofiwch am ein digwyddiad ddydd  
Llun, 7 Awst am 11 o'r gloch ym  
Mhabell y Cymdeithasau ar faes  
yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llŷn  
ac Eifionydd.

Yn ymuno ag Efa Gruffudd Jones  
mewn trafodaeth banel ar gyflwyno  
arferion effeithiol Cymraeg fydd  
cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd  
Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor  
Sir Ynys Môn a'r Ganolfan Dysgu  
Cymraeg Genedlaethol.

Croeso cynnes i bawb.

## Promoting the Welsh language in the workplace and the community

Don't forget our event at the Llŷn  
ac Eifionydd National Eisteddfod on  
Monday, 7 August at 11am in the  
Societies Pavilion.

Joining Efa Gruffudd Jones on a panel  
discussing the implementation of Welsh  
language effective practices will be  
representatives from Betsi Cadwaladr  
University Health Board, Isle of Anglesey  
County Council and the National Centre  
for Learning Welsh.

Everyone welcome.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith  
cofiwch ymweld â'n gwefan:  
[comisiynyddygydraeg.cymru](http://comisiynyddygydraeg.cymru)  
neu dilynwch ni ar Twitter, Facebook ac  
Instagram ac os am anfon neges atom y  
cyfeiriad ebost yw:  
[cyfathrebu@cyg-wlc.cymru](mailto:cyfathrebu@cyg-wlc.cymru).



For further information about our work  
please visit our website:  
[welshlanguagecommissioner.wales](http://welshlanguagecommissioner.wales)  
or follow us on Twitter, Facebook or  
Instagram and if you want to get in touch  
email us on:  
[cyfathrebu@cyg-wlc.wales](mailto:cyfathrebu@cyg-wlc.wales).





Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner